Y Pwyllgor Deisebau – Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

## Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried ar ddiwedd y Pumed Senedd

**Dyddiad:** 11 Mawrth 2021

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r deisebau y mae'n eu hystyried ar hyn o bryd a chytuno ar ba rai y dylid eu cyflwyno i'r Chweched Senedd i'w hystyried ymhellach a pha rai y dylid eu cau.

## Cefndir

2. Gan ragweld diwedd y Senedd bresennol, gofynnodd y Pwyllgor i'r ysgrifenyddiaeth nodi pa ddeisebau y gellid eu cyflwyno i’r Senedd nesaf i'w hystyried gan ei bwyllgor olynol, a pha ddeisebau y gallai'r Pwyllgor hwn ystyried eu cau. Cynhaliwyd ymarfer tebyg ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad.

3. Mae 127 o ddeisebau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor ar hyn o bryd (h.y. rhai sydd wedi'u trafod ar o leiaf un achlysur ac nad ydynt wedi'u cau). Wrth benderfynu faint o ddeisebau i'w cyflwyno i’r Senedd nesaf, dylai'r Pwyllgor nodi hefyd bod 77 o ddeisebau’n casglu llofnodion ar hyn o bryd. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cyfeirio i'w hystyried yn y Chweched Senedd os byddant yn casglu digon o lofnodion.

4. Mae'r ysgrifenyddiaeth wedi paratoi dau dabl i'r Pwyllgor eu hystyried. Mae'r tabl yn Atodiad A yn rhoi trosolwg o'r deisebau y gallai'r Pwyllgor fod eisiau ystyried eu cyfeirio at y pwyllgor a fydd yn gyfrifol am ddeisebau yn y Chweched Senedd. Mae'r tabl yn Atodiad B yn cynnwys y deisebau y gallai'r Pwyllgor ystyried eu cau. Nid yw’r deisebau y trefnwyd i'w trafod yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mawrth 2021 wedi'u cynnwys yn y tablau hyn.

## Cam i’w gymryd:

5. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y cynigion isod.

**Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried**

**Atodiad A**: Deisebau y gallai’r Pwyllgor fod eisiau eu cyflwyno i'w hystyried yn y Chweched Senedd

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol | 227 | Ionawr 2019 | Saith achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'w bwyllgor olynol ystyried y ddeiseb ar ôl cyhoeddi’r gwerthusiad o brosiect peilot y Lighthouse Project yn Llundain yn 2021. |
| P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy’n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl | 5,682 | Tachwedd 2019 | Dau achlysur | Gohiriwyd dadl a drefnwyd ar gyfer mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig y Coronafeirws. Mae’r deisebydd wedi gofyn a gaiff y ddeiseb ei phasio i’r Chweched Senedd i gael ei hystyried. |
| P-05-914 Mynediad cyfartal i ofal iechyd ar gyfer yr anabl | 121 | Tachwedd 2019 | Pedwar achlysur | Mae'r Pwyllgor yn aros am ymateb i gynigion y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru. |
| P-05-924 Sicrhau bod Llysgenhadon Llesiant ym mhob ysgol yng Nghymru | 297 | Ionawr 2020 | Dau achlysur | Ni fu'n bosibl i’r Pwyllgor gymryd tystiolaeth bellach gan y deisebwyr (disgyblion ysgol) oherywdd effaith y pandemig. |
| P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod, | 2,008 | Chwefror 2020 | Tri achlysur | Mae’r Pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa yn sgil adolygiad annibynnol, a gomisiynwyd gan Defra a'r Llywodraethau datganoledig, a ddisgwylir yng ngwanwyn 2021. |

Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| cimychiaid afon, corgimychiaid ac ati) | | | | |
| P-05-954 Deiseb yn galw am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i gam-drin plant hanesyddol ar Ynys Byr | 5,088 | Gorffennaf 2020 | Dau achlysur | Cytunodd y Pwyllgor nad oedd llawer o opsiynau ar gael iddo ac i gadw golwg ar y sefyllfa. Mae'r deisebwyr wedi gofyn am i'r ddeiseb gael ei chyflwyno i'w hystyried yn y Chweched Senedd. |
| P-05-974 Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU. | 561 | Medi 2020 | Dau achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r ddeiseb i'w hystyried yn y Chweched Senedd. |
| P-05-1001 Cynnal ymchwiliad annibynnol i'r dewis o safle ar gyfer y Ganolfan Ganser Felindre newydd arfaethedig | 5,348 | Medi 2020 | Pedwar achlysur | Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth. Mae'r Pwyllgor yn aros am ymateb i ohebiaeth bellach a anfonwyd at Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1018)* |
| P-05-1018 Cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau | 11,392 | Medi 2020 | Pump achlysur | Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth. Mae'r Pwyllgor yn aros am ymateb i |

Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| arfaethedig presennol i adeiladu Canolfan Ganser Felindre newydd yng Nghaerdydd mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol | | | | ohebiaeth bellach a anfonwyd at Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1001)* |
| P-05-1035 Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth. | 7,326 | Tachwedd 2020 | Dau achlysur | Mae'r Pwyllgor yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywodraeth yn dilyn dadl a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar y pwnc. |
| P-05-1040 Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwyo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru. | 938 | Tachwedd 2020 | Dau achlysur | Ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb pellach gan Lywodraeth Cymru. |
| P-05-1041 Polisi a chyllid clir ar gyfer ysbytai a chartrefi gofal ar gyfer ymweliadau rhithwir yn | 187 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan Fforwm Gofal Cymru. Mae'r rheolau'n dechrau cael eu llacio mewn perthynas â chartrefi gofal ar hyn o bryd. |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud | | | | |
| P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol | 1,462 | Rhagfyr 2020 | Dau achlysur | Ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb pellach gan Lywodraeth Cymru. |
| P-05-1046 Ailystyried y cyfnod clo ac ymchwilio i dystiolaeth wyddonol nad yw'n gweithio a’i fod yn achosi mwy o niwed | 2,189 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Mae’r Pwyllgor yn aros am ymateb i'r ddeiseb gan Lywodraeth Cymru. |
| P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru | 5,386 | Rhagfyr 2020 | Dau achlysur | Mae dadl wedi’i threfnu ar y ddeiseb yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer 17 Mawrth. |
| P-05-1062 Rhoi'r gorau i'r prawf rt-PCR i brofi ar gyfer | 96 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Mae’r Pwyllgor yn aros am ymateb i'r ddeiseb gan Lywodraeth Cymru. |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| COVID-19, gan nad yw'n addas i'r diben | | | | |
| P-05-1068 Caniatáu cyfarfodydd ymbellhau cymdeithasol mewn gerddi preifat i ddilyn y wyddoniaeth ac osgoi teimlo’n ynysig | 273 | Ionawr 2021 | Dau achlysur | Ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb pellach gan y Llywodraeth. |
| P-05-1069 Arbed y tir fferm a'r caeau gwyrdd yn Cosmeston | 5,272 | Rhagfyr 2020 | Dau achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gadw golwg ar gamau nesaf y broses gynllunio a gofyn i'w bwyllgor olynol adolygu'r ddeiseb yn y Chweched Senedd. |
| P-05-1071 Dylid argraffu rhif cofrestru cerbydau ar becynnau bwyd brys a werthir drwy ffenest y car | 8,341 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim.<br>Cyhoeddwyd strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu' a chynllun atal sbwriel yn ddiweddar. |
| P-05-1073 Sefydlu ac adeiladu cangen newydd o Amgueddfa Cymru sy’n | 103 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru. |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| canolbwyntio ar ran Cymru mewn trefedigaethedd | | | | *(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1086)* |
| P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid! | 5,159 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb ar 10 Mawrth.<br>Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon hefyd wedi gwneud gwaith yn y maes hwn. |
| P-05-1086 Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 490 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Ysgrifennodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1073)* |
| P-05-1092 Peidiwch a gohirio etholiadau mis Mai 2021 | 470 | Chwefror 2021 | Un achlysur | Mae’r Pwyllgor yn aros am ymateb pellach gan y Llywodraeth. |
| P-05-1094 Rhoi terfyn ar ddirywiad treftadaeth Pontypridd - achubwch y Bont Wen | 304 | Chwefror 2021 | Un achlysur | Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-1112 Helpwch gymunedau yng Nghymru i brynu asedau cymunedol: Gweithredwch Ran 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 | 655 | Chwefror 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno’r ddeiseb i'w hystyried ymhellach yn y Chweched Senedd gan y bydd gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn. |
| P-05-1129 Mae angen cymhwyso mesurau deddfwriaethol nawr i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiddymu Lesddaliad | 425 | Mawrth 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'w olynydd ystyried y ddeiseb. |
| P-05-1130 Dylai Llywodraeth Cymru ail-brynu ac adnewyddu Coleg Harlech | 6,666 | Mawrth 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'w olynydd ystyried y ddeiseb. |
| P-05-1132 Cychwyn Ymchwiliad Barnwrol Annibynnol i Fwrdd Iechyd | 126 | Mawrth 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. |

**Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | | | | |
| P-05-1135 Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer canolfannau addysg awyr agored preswyl, sydd bellach yn methu â gweithredu am 12 mis. | 1,181 | Mawrth 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'w olynydd ystyried y ddeiseb. |

**Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried**

**Atodiad B: Deisebau y gallai’r Pwyllgor fod eisiau eu cau ar ddiwedd y Senedd hon**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi’r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a’r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol | 631 | Hydref 2017 | 13 achlysur | Bu oedi gyda’r gwaith o gwblhau ailasesiadau derbynwyr blaenorol y Gronfa Byw’n Annibynnol yn sgil y pandemig. Yn flaenorol, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ac roedd y deisebydd yn fodlon ar y cyfan â phenderfyniad y Llywodraeth i adolygu derbynwyr yn unigol. |
| P-05-774 Ewch Heibio’n Llydan ac yn Araf (Cymru) | 1,755 | Hydref 2017 | Tri achlysur | Gofynnodd y Pwyllgor am gyfarfod rhwng y deisebwyr a'r Llywodraeth. Ni chafwyd diweddariadau pellach. |
| P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU | 652 | Tachwedd 2017 | Deg achlysur | Yn aros am ganlyniadau gwaith gan Gymwysterau Cymru. Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar gynigion ar gyfer pynciau tan 9 Ebrill 2021, gyda chymwysterau i'w cynllunio erbyn 2024. |
| P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad – dylid adolygu TAN 1 | 706 | Tachwedd 2017 | Wyth achlysur | Mae'r Pwyllgor wedi bod yn aros am ddiweddariad gan y Llywodraeth ar y camau sydd i'w cymryd yn dilyn ymgynghoriad ar ddiwygiadau i adran dai Polisi Cynllunio Cymru. |

Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Llywodraeth bellach wedi dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-881)* |
| P-05-798 Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u cyllido'n annibynnol | 138 | Chwefror 2018 | Naw achlysur | Mae'r Pwyllgor wedi codi nifer o faterion yn ymwneud â'r ddeiseb gyda Llywodraeth Cymru, ond heb wneud llawer o gynnydd. Mae'r Llywodraeth wedi mynnu bod gwasanaethau cenedlaethol i ddynion ar gael drwy Gynllun Dyn a Byw Heb Ofn. |
| P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth! | 102 | Mawrth 2018 | Saith achlysur | Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ddatblygu cynigion ar gyfer treth pecynnu plastig ledled y DU, ac yn ystyried y posibilrwydd o dreth neu dâl gwpanau plastig defnydd untro<br>. Mae'r pwyllgor yn aros am ddiweddariad pellach. |
| P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi | 1,425 | Mai 2018 | 11 achlysur | Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar y ddeiseb yn ystod mis Mawrth 2021. |

**Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd. | 3,040 | Ebrill 2018 | Chwech achlysur | Mae'r Pwyllgor yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i'r Llywodraeth ddatblygu prosiect peilot mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru a'r deisebwyr. Mae'n debyg bod y pandemig wedi effeithio ar y gwaith hwn. |
| P-05-814 Pob adeilad newydd yng Nghymru i gael paneli solar | 72 | Mai 2018 | Dau achlysur | Mae'r Pwyllgor yn aros am ganlyniad adolygiad y Llywodraeth o Ran L o'r rheoliadau adeiladu. |
| P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru | 159 | Medi 2018 | Saith achlysur | Yn aros am ganlyniad cyfarfodydd a drefnwyd rhwng y Llywodraeth, Haemoffilia Cymru a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Waed. Mae'r Llywodraeth wedi cyfeirio at waith i adolygu manteision y cynllun yng Nghymru. |
| P-05-832 Diwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion ynghylch Plant a Anwyd yn ystod yr Haf | 241 | Medi 2018 | Pump achlysur | Mae'r pwyllgor yn aros am ymgynghoriad ar newidiadau yn y cod derbyn i ysgolion, nad yw wedi'i gyhoeddi. Mae'n bosibl bod y pandemig wedi achosi oedi. |
| P-05-846 Achub Ysbyty Tywysog Philip Llanelli | 12,745 | Tachwedd 2018 | Chwech achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gadw golwg ar y sefyllfa o ystyried nad oedd newidiadau yn cael eu |

Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnig i Ysbyty'r Tywysog Philip. Ni chodwyd unrhyw gynigion pellach. |
| P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad | 6,345 | Rhagfyr 2018 | Chwech achlysur | Mae'r pwyllgor yn cadw golwg ar weithredu cynllun sganio mpMRI yng Nghymru, yn dilyn cyngor newydd gan NICE. |
| P-05-853 Na i gau Cyffordd 41 o gwbl | 473 | Ionawr 2019 | Tri achlysur | Mae'r Pwyllgor yn cadw golwg ar ganlyniadau monitro a chynigion pellach gan y Llywodraeth. Mae'n bosibl bod y pandemig wedi achosi oedi. |
| P-05-863 Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel | 141 | Chwefror 2019 | Pedwar achlysur | Mae'r Pwyllgor yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gan y Llywodraeth. Ers hynny mae'r deisebydd wedi nodi ei fod yn fodlon â'r sefyllfa. |
| P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi | 6,148 | Mai 2019 | Pump achlysur | Mae'r pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa yn sgil gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion |

**Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwledig. Cyflawnwyd y camau sylweddol y gofynnwyd amdanynt drwy ddeiseb (datgan argyfwng hinsawdd). |
| P-05-870 Gadewch i ni Sicrhau y Caiff Calon Pob Person Ifanc (10-35 oed) ei Sgrinio | 3,444 | Ebrill 2019 | Pedwar achlysur | Yn sgil penderfyniad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i beidio ag argymell sgrinio'r boblogaeth yn systematig ar gyfer cyflyrau cardiaidd, gofynnodd y Pwyllgor am farn elusennau eraill ond ni chafwyd dim. |
| P-05-881 Trwsio ein system gynllunio | 250 | Mehefin 2019 | Tri achlysur | Mae'r Pwyllgor wedi bod yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd i'w cymryd gan y Llywodraeth yn dilyn ymgynghoriad ar ddiwygiadau i adran dai Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r Llywodraeth bellach wedi dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-786)* |
| P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494) | 1,409 | Mehefin 2019 | Naw achlysur | Bydd y ddeiseb yn cael ei chau ar ôl i ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a gyhoeddodd ar 2 Mawrth gael ei dderbyn. |

**Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-889 Labelu Cig o anifeiliaid sydd wedi’u lladd mewn modd crefyddol | 348 | Gorffennaf 2019 | Un achlysur | Mae’r pwyllgor yn aros am ddatblygiadau pellach yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae’r gwaith ar Farchnad Fewnol y DU yn parhau ac felly nid yw'n eglur a fydd Llywodraeth Cymru yn ennill cymhwysedd yn y maes hwn. |
| P-05-901 Gwahardd Gwerthu Ffwr Anifeiliaid yng Nghymru | 3,098 | Hydref 2019 | Dau achlysur | Mae’r pwyllgor yn aros am ddatblygiadau pellach yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae’r gwaith ar Farchnad Fewnol y DU yn parhau ac felly nid yw'n eglur a fydd Llywodraeth Cymru yn ennill cymhwysedd yn y maes hwn. |
| P-05-904 Gwahardd y defnydd o anifeiliaid mewn syrcasau a sioeau teithiol yng Nghymru | 1,649 | Tachwedd 2019 | Un achlysur | Daeth Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020 yn gyfraith yng Nghymru ar 7 Medi 2020 yn dilyn deiseb flaenorol. Ymddengys nad oes camau pellach i’w cymryd ar y mater hwn yn fuan. Rhoddwyd cyfle i’r deisebwyr roi sylwadau yn hydref 2020. |
| P-05-919 Peidiwch â chyflwyno’r syniad i drwyddedu cŵn sioe, cathod sioe a cheffylau a ddangosir | 4,241 | Rhagfyr 2019 | Un achlysur | Mae’r Pwyllgor yn aros am benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch cynllun trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid ar ôl ymgynghori, yn dilyn arwydd gan y Gweinidog na fyddai'r |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithgaredd y cyfeirir ato yn y ddeiseb yn cael ei gynnwys. Mae’n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar y gwaith. |
| P-05-927 Cyfleusterau toiled Changing Places | 1,273 | Ionawr 2020 | Dau achlysur | Mae’r pwyllgor yn aros am ymgynghoriad ar newidiadau yn y Rheoliadau Adeiladu i wneud darpariaeth cyfleusterau toiled Changing Places yn ddisgwyliedig mewn rhai adeiladau newydd. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ym mis Chwefror 2021 tan Ebrill 2021. |
| P-05-936 Cynnig Prawf Sgrinio Canser y Coluddyn ar ôl 74 oed | 69 | Chwefror 2020 | Tri achlysur | Nid yw cyngor presennol Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC) yn cynnwys sgrinio’r boblogaeth ar ôl 74. Blaenoriaeth y Llywodraeth yw ehangu’r sgrinio i bobl rhwng 50 a 59 yn unol ag argymhelliad UKNSC. |
| P-05-940 Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo | 100 | Mawrth 2020 | Dau achlysur | Mae’r Pwyllgor yn aros am ddata gan y Llywodraeth. Ers cyflwyno’r ddeiseb, mae'r sefyllfa wedi newid oherwydd y pandemig. |
| P-05-944 Gwrthdroi’r toriadau i wasanaethau | 953 | Mawrth 2020 | Dau achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn ailedrych ar y ddeiseb o bosibl os bydd gwasanaethau rheilffyrdd yn dychwelyd i |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| trenau cymudwyr yng Ngogledd-ddwyrain Cymru | | | | amserlenni safonol yn ystod y cyfnod hwn. Mae’n aneglur pryd y bydd hyn yn digwydd oherwydd y pandemig. |
| P-05-965 Annog y Llywodraeth i gyflwyno ward ar wahân, heblaw’r ward famolaeth, ar gyfer teuluoedd sy'n colli plentyn drwy gamesgoriad. | 52 | Gorffennaf 2020 | Tri achlysur | Rhoddodd y Pwyllgor grynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd gan fyrddau iechyd i'r Llywodraeth. |
| P-05-975 Ailystyriwch y codiad i’r dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi tra'i bod yn anghyfreithlon i deithio i ail gartrefi. | 68 | Gorffennaf 2020 | Un achlysur | Mae'r Pwyllgor wedi bod yn aros am ymateb gan Gyngor Sir Penfro. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw materion. |
| P-05-977 Ailagor gwasanaethau deintyddol cyffredinol llawn yng Nghymru fel sydd wedi digwydd yn Lloegr | 7,583 | Gorffennaf 2020 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gadw golwg ar y sefyllfa ac aros am ddiweddariad pellach gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |

**Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-980 Ymestyn grantiau ar unwaith i fusnesau bach yng Nghymru nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach | 130 | Gorffennaf 2020 | Un achlysur | Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am faint y disgresiwn sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran darparu cyllid i fusnesau y tu allan i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach. Cadarnhawyd bod disgresiwn yn bodoli mewn perthynas â deisebau eraill. |
| P-05-1027 Caniatáu clybiau pêl-droed domestig Cymru i chwarae gemau cyfeillgar, a chaniatáu cefnogwyr i fynd i’r gemau | 2,045 | Hydref 2020 | Dau achlysur | Mae’r pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa oherwydd newid yn y rheolau presennol ledled y DU o ganlyniad i adfywiad y pandemig. Newidiodd yr amgylchiadau oherwydd symud i Rybudd Lefel 4.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1101)* |
| P-05-1028 Llaciwch y cyfyngiadau gormodol i ganiatáu i ralïau chwaraeon modur gael eu cynnal yng Nghymru. | 3,889 | Hydref 2020 | Dau achlysur | Mae’r pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa oherwydd newid yn y rheolau presennol ledled y DU o ganlyniad i adfywiad y pandemig. Newidiodd yr amgylchiadau oherwydd symud i Rybudd Lefel 4. |
| P-05-1037 Caniatáu i blant fynd i mewn i ardaloedd | 9,867 | Tachwedd 2020 | Dau achlysur | Mae’r pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa oherwydd newid yn y rheolau ledled y DU o |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| dan gyfyngiadau symud i barhau i hyfforddi gyda'u clybiau chwaraeon | | | | ganlyniad i adfywiad y pandemig. Newidiodd y sefyllfa ers cyflwyno’r ddeiseb oherwydd i Lywodraeth Cymru osod rheolau cenedlaethol. |
| P-05-1050 Ei gwneud yn ofynnol i’r Senedd gynnal pleidlais i gymeradwyo cyfyngiadau lleol cyn eu gweithredu | 127 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim |
| P-05-1053 Cadwch gampfeydd ar agor ac ystyriwch eu bod nhw mor bwysig â siopau, os cyflwynir cyfyngiadau symud cenedlaethol unwaith yn rhagor | 20,616 | Rhagfyr 2020 | Dau achlysur | Trafodwyd y ddeiseb yn y Cyfarfod Llawn fel rhan o ddadl ar fynediad at chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn ystod cyfyngiadau symud.<br><br>Mae deisebau eraill ynghylch ailagor campfeydd yn cael eu hystyried ar 16 Mawrth. |
| P-05-1054 Mae’r sector gwallt a harddwch wedi profi ei fod yn ddiogel o ran COVID-19. Peidiwch â’n cau | 6,074 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Mae’r pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa oherwydd newid yn y rheolau presennol ledled y DU o ganlyniad i adfywiad y pandemig ac i |

Adolygiad o'r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| a pheryglu swyddi yng Nghymru unwaith yn rhagor. | | | | aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |
| P-05-1057 Cynyddu nifer y bobl sy'n cael mynd i dderbyniadau priodas. | 984 | Rhagfyr 2020 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim.<br><br>Mae deiseb arall ynghylch pryd y gall priodasau ailddechrau yn cael ei hystyried ar 16 Mawrth. |
| P-05-1063 Dylid agor cyrsiau golff gan eu bod yn chwarae rôl hanfodol o ran gwella iechyd corfforol ac iechyd meddyliol | 6,317 | Rhagfyr 2020 | Dau achlysur | Trafodwyd y ddeiseb yn y Cyfarfod Llawn fel rhan o ddadl ar fynediad at chwaraeon a gweithgaredd corfforol yn ystod cyfyngiadau symud.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |
| P-05-1072 Ymchwilio i'r pwerau sydd gan Senedd Cymru mewn perthynas â gwahardd therapi newid cyfeiriadedd rhywiol. | 144 | Rhagfyr 2020 | Dau achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |

**Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried**

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-1082 Gadewch i gorau ymarfer dan do os ydyn nhw'n cynhyrchu asesiad risg llawn i atal haint C-19 | 498 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |
| P-05-1084 Dysgwch blant Cymru am sut y gwnaeth Cymru wladychu Patagonia | 103 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim.<br><br>Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) bellach wedi'i basio gan y Senedd.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1098)* |
| P-05-1085 Gwneud hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn orfodol i bob Cynghorydd etholedig ac Aelod o'r Senedd yng Nghymru” | 142 | Chwefror 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| P-05-1087 Rhowch derfyn ar ynysu torfol gan blant ysgol iach! | 1,177 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |
| P-05-1091 Dileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol | 63 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |
| P-05-1096 Dileu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o’r elfen orfodol o Fil Cwricwlwm 2020 | 5,307 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i gadw golwg ar y mater yn sgil gwaith craffu parhaus ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).<br><br>Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) bellach wedi'i basio gan y Senedd. Ni chytunwyd ar welliannau i ddileu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o agweddau gorfodol y Cwricwlwm. |
| P-05-1098 Dylai rôl Cymru yn hanes trefedigaethol Prydain fod yn bwnc gorfodol mewn ysgolion. | 50 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim.<br><br>Mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) bellach wedi'i basio gan y Senedd. |

## Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1084)* |
| P-05-1101 Caniatáu i gefnogwyr fynychu digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru | 105 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Mae’r pwyllgor yn cadw golwg ar y sefyllfa oherwydd newid yn y rheolau presennol ledled y DU o ganlyniad i adfywiad y pandemig. Newidiodd yr amgylchiadau oherwydd symud i Rybudd Lefel 4.<br><br>*(Deiseb wedi'i grwpio gyda P-05-1027)* |
| P-05-1102 Caniatáu o leiaf un rhiant neu warcheidwad i wylio gemau pêl-droed sydd wedi'u trefnu i blant | 52 | Ionawr 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd. Ni chafwyd dim. |
| P-05-1111 Rhowch y £7 miliwn yn ôl yn y gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl | 255 | Mawrth 2021 | Un achlysur | Cytunodd y Pwyllgor i aros am sylwadau gan y deisebydd, gyda'r bwriad o gau'r ddeiseb ar 16 Mawrth pe na bai dim yn dod i law. |
| P-05-1115 Atal fferm solar anferth fydd yn dinistrio dolydd hynafol ger y Fenni | 258 | Chwefror 2021 | Un achlysur | Cytunodd y pwyllgor i gadw golwg ar y ddeiseb tan ddiwedd tymor y Senedd. Mae gan y datblygwr tan fis Ionawr 2022 i gyflwyno cais a fydd yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o |

Adolygiad o’r deisebau sy'n cael eu hystyried

| Teitl y ddeiseb | Llofnodion | Cyfarfod cyntaf | Y nifer o weithiau y cawsant eu hystyried | Y sefyllfa bresennol |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | Arwyddocâd Cenedlaethol. Nid oes llawer y gallai pwyllgor ei wneud ochr yn ochr â hyn. |
| P-05-1137 Galwad ar i Lywodraeth Cymru roi cyllid teg i Lyfrgell Genedlaethol Cymru | 14,338 | Chwefror 2021 | Un achlysur | Cyhoeddodd y Llywodraeth gyllid ychwanegol ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Darparwyd sylwadau pellach y deisebydd i'r Llywodraeth eu hystyried. |